Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Comisiwn y Cynulliad

National Assembly for Wales
Assembly Commission

Llyr Gruffydd
Cadeirydd y Pwyllgor Cyllid
Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Tŷ Hywel
Bae Caerdydd
CF99 1NA

16 Hydref 2018

Annwyl Llyr

Yn dilyn ein hymddangosiad gerbron eich Pwyllgor ar 3 Hydref, rwy'n ysgrifennu atoch er mwyn rhoi rhagor o wybodaeth i chi a fydd yn ategu'r atebion a roddwyd gennym yn ystod y cyfarfod. Mae'r wybodaeth o dan sylw wedi'i nodi yn yr atodiad.

Hoffem ddiolch i'r Pwyllgor am eich gwaith craffu. Mae'r Comisiwn bob amser yn ceisio gweithredu mewn ffordd agored, dryloyw a chlir. Felly, os oes unrhyw beth arall y gallwn ei roi i chi i gynorthwyo trafodaethau'r Pwyllgor, mae croeso i chi roi gwybod i mi.

Yn gywir



Suzy Davies

copi at Gomisiynwyr y Cynulliad, Manon Antoniazzi, Nia Morgan

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1NA
Sulafa.Thomas@cynulliad.cymru
www.cynulliad.cymru
0300 200 6227

National Assembly for Wales
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1NA
Sulafa.Thomas@assembly.wales
www.assembly.wales
0300 200 6227

Comisiwn y Cynulliad: Gwybodaeth ychwanegol yn dilyn ein hymddangosiad gerbron y Pwyllgor Cyllid ar 3 Hydref 2018

Prosiectau Blaenoriaeth – Manylion ynghylch prosiectau blaenoriaeth ar gyfer 2019-20

Mae Atodiad 3 i ddogfen y Gyllideb Ddrafft yn nodi'r prosiectau blaenoriaeth ar gyfer 2019-20:

Blaenoriaethau Buddsoddi'r Comisiwn ar gyfer 2019-20:	£'000
Legislative Workbench	£100
Prosiectau ar gyfer y Cyfarfod Llawn a'r drefn ddeisebau	£60
Newid Enw	£25
Gwybodaeth gyhoeddus ac ymgysylltu	£125
Gwefan	£275
Blaenoriaethau o ran gwariant ar yr ystâd:	
Atgyweirio'r seilwaith - yr Atriwm	£65
Ffenestri newydd – Cam 1	£345
Boeleri	£295
Drysau tân a ffenestri newydd - Cam 1	£80
Blaenoriaethau o ran gwariant ar TGCh:	
Adnewyddu'r isadeiledd	£50
Seiber-ddiogelwch	£30
Prosiect llais i destun	£50
Blaenoriaethau buddsoddi ar gyfer 2019-20	£1,500

Yn y ddogfen Gyllideb, mae'r prosiectau hyn yn cael eu grwpio ag eitemau eraill sy'n cyflawni'r un amcan strategol. Mae gan y Comisiwn dri amcan strategol:

- **DARPARU CEFNOGAETH SENEDDOL O'R RADD FLAENAF**
- **YMGYSYLLTU Â HOLL BOBL CYMRU A HYRWYDDO'R CYNULLIAD**
- **DEFNYDDIO ADNODDAU'N DDOETH**

Rydym wedi grwpio ein prosiectau blaenoriaeth yn y modd hwn er mwyn sicrhau mai dim ond prosiectau sy'n helpu'r broses o gyflawni un o'r nodau hyn y gellir eu hystyried yn brosiectau blaenoriaeth.

Mae tudalennau 21 i 26 yn cynnwys gwybodaeth fanwl am ein holl brosiectau blaenoriaeth, ynghyd â gwybodaeth ychwanegol am ein gwaith ymgysylltu academaidd newydd, sydd wedi'i chynnwys yn nhabl 7 yn y gyllideb (t36).

Ar hyn o bryd, dyma'r prosiectau y mae'r Comisiwn yn bwriadu eu cyflawni yn ystod 2019-20. Ar hyn o bryd, mae'r wybodaeth a geir ar dudalennau 21-26 yn nodi'r ddealltwriaeth gyfredol sydd gennym o ran cwmpas y prosiectau hyn a'r gwaith sy'n gysylltiedig â'u gwneud.

Cyn i unrhyw arian gael ei ddyrannu i'r prosiectau hyn, bydd achos busnes manwl yn cael ei gyflwyno i'r Bwrdd Gweithredol mewn perthynas â phob un o'r prosiectau, a hynny er mwyn sicrhau eu bod yn cael eu herio a'u bod yn destun gwaith craffu trylwyr.

Mae'n bosibl y bydd angen inni amrywio'r rhestr o brosiectau blaenoriaeth sydd i'w cyflawni yn 2019-20 os bydd blaenoriaethau newydd yn dod i'r amlwg, neu os bydd angen newid y cynllun ar gyfer cyflawni prosiectau yn 2018-19.

Gwariant cyfalaf neu wariant refeniw

Yn ystod y sesiwn graffu, tynnwyd sylw at y ffaith nad yw'r Comisiwn yn gwahaniaethu rhwng gwariant ar brosiectau blaenoriaeth cyfalaf a phrosiectau blaenoriaeth refeniw.

Fel cyrff cyhoeddus eraill, mae gan y Comisiwn un cyfanswm rheoli, yn unol â Rheol Sefydlog 20.13 y Cynulliad Cenedlaethol. Golyga hyn, ar ddiwedd y flwyddyn ariannol, fod yn rhaid i'r Comisiwn sicrhau mai dim ond ei wir wariant cyffredinol (refeniw a chyfalaf) sy'n parhau i gael ei gynnwys yn y swm adnoddau cyffredinol a gaiff ei gymeradwyo gan y Cynulliad.

Mae'r sefyllfa hon yn rhoi hyblygrwydd i'r Comisiwn yn ei gyllideb. Mae'n galluogi'r Comisiwn i flaenoriaethu ei wariant yn unol â'i wir ofynion, yn hytrach na chanolbwyntio'n ormodol ar geisio penderfynu a yw eitem yn eitem gyfalaf neu'n eitem refeniw. Gellir asesu prosiect yn ôl ei deilyngdod yn hytrach na'i ddiystyru fel prosiect cyfalaf os yw'r Comisiwn wedi gorwario yng nghyd-destun ei linell gyfalaf.

Absenoldeb – Ffigurau ar gyfer absenoldebau salwch ers mis Mawrth 2018.

Mae'r Comisiwn wrthi'n gweithio ar fentrau i wella lefelau absenoldeb a llesiant ac iechyd meddwl staff.

Ers mis Mawrth 2018, mae'r ffigurau salwch wedi gwella, ac maent wedi syrthio islaw meincnod y sector cyhoeddus dros y tri mis diwethaf, er nad ydym eto wedi gweld effaith lawn y camau yr ydym yn eu cymryd:

Mis	**Absenoldeb salwch – cyfartaledd canran treigl dros 12 mis**
Mawrth 2018	3.8%
Gorffennaf 2018	3.64%
Awst 2018	3.44%
Medi 2018	3.36%
Meincnod y sector cyhoeddus	3.7%

Yn ddiweddar, bûm yn hyrwyddo ein hwythnos Llesiant Bywyd a Gwaith estynedig, a gynhaliwyd rhwng 2 a 12 Hydref. Cynhaliwyd digwyddiadau a ddatblygwyd gan yr adran Adnoddau Dynol gyda'r nod o wella iechyd a llesiant y staff, a chafodd gweithwyr a rheolwyr gyngor ynghylch y ffyrdd gorau o reoli eu bywyd gwaith a'u bywyd cartref er mwyn gwella eu lefelau llesiant a'u ffordd o fyw. Roedd y fenter hon hefyd yn cwmpasu Diwrnod Iechyd Meddwl y Byd, a gynhaliwyd ar 10 Hydref, a hynny gyda chymorth aelodau MINDFUL, sef rhwydwaith iechyd meddwl y staff, a'r nyrs iechyd galwedigaethol.

Mae gwaith hefyd wedi'i wneud ar ddatblygu prosesau gwell ar gyfer rheoli systemau ac ar ddatblygu gallu rheoli. Absenoldeb yw canolbwynt y trafodaethau a gynhelir gan Bartneriaid Busnes Adnoddau Dynol y Comisiwn, ac mae'r data a'r trefniadau adrodd sydd ynghlwm wrth faterion absenoldeb wedi gwella, a hynny at ddibenion dangos yn glir sut y mae pob adran yn cymharu â'r meincnod a'n targed sefydliadol.